**<u>Pwyllgor Diwylliant - CC-1-02(p.1)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am -12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

**Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adolygiad o’r Iaith Gymraeg**

**Memorandwm gan BBC Cymru**

**<u>Cyflwyniad</u>**

1. Mae BBC Cymru, fel rhan o’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, yn rhwymedig yn ôl telerau ei Siartr Frenhinol i "adlewyrchu diwylliant, chwaeth a buddiannau" Cymru. Mae ganddo ymrwymiad dwfn a hanesyddol i greu a darlledu rhaglenni yn Gymraeg a Saesneg. Mae hefyd yn cydnabod yr egwyddor o drin yr iaith Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes, gan weithredu Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg.
2. Mae gwasanaethau’r BBC yng Nghymru yn cynnwys:

   **BBC Radio Wales –** gwasanaeth radio cenedlaethol ar gyfer Cymru yn Saesneg, sy’n darlledu ar y Donfedd Ganol neu FM (mewn rhai rhannau o Gymru) am 18 awr y dydd.

   **Teledu BBC Cymru** – yn darlledu 13.5 awr yr wythnos o raglenni teledu yn Saesneg o fewn amserlenni BBC One a BBC Two. Yn ystod 2000-2001, darparwyd blociau dwy awr dyddiol o raglenni i BBC CHOICE Wales hefyd, sef gwasanaeth digidol. Daeth hyn i ben ym mis Mawrth 2001: o dymor yr Hydref 2001 ymlaen, bydd gwylwyr yng Nghymru yn derbyn amserlen ehangach o raglenni ar BBC Two ar ddigidol a wnaed yn benodol ar eu cyfer yn ystod oriau brig gyda’r nos.

   **BBC Radio Cymru –** gwasanaeth radio cenedlaethol ar gyfer Cymru yn Gymraeg, sy’n darlledu ar FM am 18 awr y dydd. Darlledir 64 awr y flwyddyn o raglenni addysg hefyd

ar Radio Cymru yn ystod oriau mân y bore; mae dwy ran o dair o'r rhain yn Gymraeg a thraean ohonynt yn Saesneg. Mae cyrhaeddiad wythnosol yr orsaf wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed y llynedd: mae 40% o'r holl siaradwyr Cymraeg yn troi at yr orsaf yn rheolaidd. Mae'r amserlen yn cynnwys amrywiaeth eang o arddulliau a chynnwys: newyddion, materion cyfoes, barddoniaeth, cerddoriaeth fyw, drama, cwisiau a digwyddiadau arbennig, ynghyd ag amrywiaeth o gyflwynwyr poblogaidd a chyflwynwyr sydd wedi ennill eu plwyf. Arweiniodd yr amrywiaeth hwn at broffil iach o ran oedran cynulleidfa gan ddangos bod yr orsaf yn apelio at gynulleidfa iau ynghyd â gwrandawyr selog: mae nifer y gwrandawyr o dan 35 oed wedi dyblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym wedi cychwyn ar y broses o gyfoethogi amserlen Radio Cymru gyda rhaglen newyddion foreol gynhwysfawr ac awdurdodol sef y *Post Cyntaf* a enillodd ei phlwyf yn gyflym ac sydd wedi mynd o nerth i nerth. Bydd Radio Cymru ar gael drwy gyfrwng lloeren ddigidol ar draws y DU tuag at ddiwedd 2001.

**BBC Cymru ar S4C** – yn cyflenwi 10 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg i'w darlledu ar S4C. Mae'r cyflenwad hwn yn cael ei ariannu'n llwyr gan ffî'r drwydded, ac mae'n cynnwys gwasanaeth newyddion S4C, y gyfres materion cyfoes *Taro Naw,* a'r ddrama ddyddiol boblogaidd *Pobol y Cwm*, yn ogystal â cherddoriaeth (o gyngherddau byw i nosweithiau thema), y rhaglen newyddion i blant *Ffeil*, a rhaglenni dogfen megis y gyfres boblogaidd *O Flaen dy Lygaid*. BBC Cymru yw unig ddarparwr rhaglenni i ysgolion cyfrwng Cymraeg, a darlledir y rhain ar S4C. Mae BBC Cymru hefyd yn cynhyrchu darllediadau cynhwysfawr o'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2, sef gwasanaeth digidol.

**BBC Cymru Ar-lein** – Yn ogystal â'r safleoedd Saesneg sydd wedi clod mawr, mae'r BBC hefyd wedi datblygu **BBC Cymru'r Byd,** sef safle rhyngrwyd Cymraeg cynhwysfawr. Hefyd, o ran addysg cynigiwn brofiadau dysgu i ddefnyddwyr sy'n eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd dysgu. Mae'r prosiectau cyfredol yn cynnwys safle cynhwysfawr ar addysg ac arweiniad gyrfaoedd sef *Snapdragon* – Cymraeg ar gyfer dysgwyr cynnar a *Bitesize TGAU* – cymorth adolygu ar gyfer y cwricwlwm Cymreig.

3. Canolbwynt safle *BBC Cymru'r Byd* yw'r gwasanaeth newyddion treigl – sy'n cyflwyno newyddion Cymru, y DU a'r byd yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r safle yn cynnwys adran gylchgrawn gyda fforwm drafod, erthyglau, colofnwyr, gemau a nodweddion rhyngweithiol. Mae'n cynnwys deunydd newyddion Cymraeg ar ffurf sain real a fideo real, yn ogystal â llif byw o holl wasanaeth BBC Radio Cymru.
4. Ein dibenion wrth lansio'r gwasanaeth oedd gosod y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg ar y rhyngrwyd. Mae'r cysyniad o 'bapur newydd dyddiol' ar-lein yn cynnig y cyfrwng perffaith i gynnig nid yn unig gwasanaeth newyddion, ond hefyd yr ystod lawn o gynnwys arall y BBC. Mae cynnig y gwasanaeth hwn wedi sicrhau bod BBC Cymru ar flaen y gad yn y we-gymuned Gymraeg. Mae datblygiadau newydd yn cynnwys cynnig llwybr i'r Papurau Bro, sef papurau newydd Cymraeg cymunedol, sy'n cynnig newyddion lleol i gymunedau penodol o amgylch Cymru. Y cyfeiriad yw: http://www.bbc.co.uk/cymru

**Teuluoedd a Chymunedau**

- Safleoedd Ar-lein

1. Mae deall ei gynulleidfaoedd yn well a datblygu cysylltiadau agosach â'r gymuned ymysg amcanion craidd y BBC.
2. Un ffordd o wneud hyn yw teilwra gwefannau er budd cymunedau daearyddol neu gymunedau o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau, ac mae gan BBC Cymru gynlluniau i ddatblygu sawl prosiect i'r perwyl hwnnw yn fuan. Cam pwysig yn y broses hon fydd cysylltu safleoedd ar-lein Cymraeg â phapurau newydd cymunedol – y Papurau Bro, er mwyn rhoi llwyfan i newyddion a materion lleol.
3. Bydd menter newydd arall yn defnyddio cyfryngau newydd er mwyn cysylltu â thalwyr y drwydded ar lefel gymunedol. Fel rhan o'n hymrwymiad i wasanaethau a seilir yn y gymuned a pherchenogaeth leol, rydym yn lansio pum safle 'Eich Ardal Ar-lein' yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar draws Cymru. Bydd y gwefannau hyn yn cynnig gwasanaeth unigryw i Gymru – gan gyfuno cynnwys y BBC a chynnwys y cyhoedd. Byddant yn cynnwys newyddion lleol, rhestrau, fforwm cymunedol a straeon sy'n gwneud defnydd da o wahanol gyfryngau gan bobl leol ynghylch eu bywydau a'u dyheadau.
4. Bydd y fenter hon yn golygu y bydd BBC Cymru yn cydweithio â'r cyhoedd lle byddwn yn hwyluso ac yn darparu llwyfannau ar gyfer y cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr – straeon y mae pobl yn awyddus i'w hadrodd – a gwybodaeth a syniadau y maent am eu rhannu â'u cymunedau. Drwy gyfrwng mentrau fel y rhain rydym yn anelu at chwarae rhan ragweithiol o ran cyflwyno sgiliau'r Rhyngrwyd a TG i ddefnyddwyr newydd ar draws Cymru.
5. Nid yw ein gwefannau yn ddwyieithog i gyd: fel ein cynnyrch rhaglenni Cymraeg a Saesneg, mae ein cynnyrch ar-lein Cymraeg a Saesneg yn wasanaethau ar wahân a neilltuol. Fodd bynnag, gall yr adnoddau a'r arbenigedd sydd gan y BBC ein rhoi mewn sefyllfa gref i ddatblygu gwasanaethau ar-lein Cymraeg arloesol. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chydnabyddiaeth a chymorth y Cynulliad er mwyn datblygu **BBC Cymru'r Byd** fel porth o bwys ar gyfer amrywiaeth eang o ddeunydd Cymraeg ar y we.
6. Dim ond pan gall seilwaith Cymru gynnal cysylltedd llawn y gellir gwireddu potensial darpariaeth ar-lein o'r fath, ac mae'r BBC hefyd yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan e-Weinidog y Cynulliad yn ddiweddar er mwyn datblygu cyfleusterau rhwydwaith band llydan y gellir eu fforddio.

- **Digwyddiadau**

1. Mae BBC Cymru hefyd yn helpu cymunedau i ddathlu eu diwylliant mewn digwyddiadau byw. Drwy ddarlledu digwyddiadau blynyddol o bwys megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, *Sesiwn Fawr Dolgellau*, a'r *Wyl Gerdd Dant,* deuir â'r gwyliau hynny i gynulleidfaoedd yn eu cartrefi, yn ogystal â'u dehongli er budd y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Trefnir digwyddiadau eraill gan BBC Cymru: mae Radio Cymru yn

teithio ar hyd a lled Cymru'n rheolaidd gyda sioeau teithiol, gan drefnu digwyddiadau arbennig megis *Miri Myrddin* (Caerfyrddin), *Parti Ponty* (Pontypridd), a *Mawredd Mawr* (Bangor) a gynhaliwyd yn ddiweddar. Trefnwyd y rhaglen hon o ddigwyddiadau ar ôl ymgynghori â nifer o sefydliadau sydd â diddordeb yn nyfodol yr iaith Gymraeg gyda'r bwriad o fod yn ffenestr siop i ddiwylliant bywiog ac atyniadol. Rhoddodd y gyfres Cyngerdd Bro gyfle hefyd i artistiaid lleol ddisgleirio fel rhan o gyfres o raglenni cymunedol, a rhoddwyd hwb i berfformiadau byw drwy gyfrwng y gyfres *Cyngerdd y Mileniwm.*

- **Addysg**

1. Bydd Adran Addysg a Dysgu BBC Cymru yn bartner wrth ddatblygu Cwricwlwm Digidol y BBC – gan gynnig deunydd sy'n gyffredin i'r DU gyfan a deunydd a luniwyd yn arbennig ar gyfer ein cwricwlwm penodol yn y ddwy iaith yng Nghymru. Fodd bynnag, cymerwn fod y gwasanaethau hyn y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'n berthnasol nodi'r cymorth a rydd BBC Cymru i ddysgwyr Cymraeg y tu allan i strwythurau ysgol ffurfiol, drwy gyfrwng pecynnau integredig ar deledu, radio ac ar-lein. Mae *Catchphrase Online* yn enghraifft o un o'n safleoedd mwyaf poblogaidd, a gaiff dros 10,000 o ymweliadau bob wythnos. Mae'r safle'n ehangu potensial y rhaglen hon ar Radio Wales ar gyfer dysgu Cymraeg drwy gynnig clipiau y gellir eu dadlwytho, ymarferion rhyngweithiol ac e-newyddlen. Roedd y ddarpariaeth Bitesize TGAU ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn llwyddiannus iawn eleni hefyd gyda dros 70,000 o ymweliadau yn ystod cyfnod yr arholiadau.
2. Mae BBC Cymru wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer darpariaeth dysgwyr Cymraeg ar bob llwyfan. Eleni byddwn yn gweld gwasanaeth newydd sbon yn cael ei ddatblygu ar gyfer rhieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae darllediadau'n cael eu trefnu ar radio a theledu gyda chymorth ar-lein a deunydd print sylweddol. 'Speak for Yourself' yw enw'r gyfres sydd i'w lansio ym mis Ionawr 2002. Yn y dyfodol agos, caiff rhaglenni pellach eu datblygu fel rhan o'r strategaeth ehangach.

**<u>Datblygu Economaidd</u>**

3. Lleolir BBC Cymru yng Nghaerdydd, ond mae ganddo ganolfannau gweithredol yn Abertawe, Caerfyrddin, Aberystwyth, Bangor a Wrecsam, gan gyflogi ychydig dros 1,000 o staff. Mae'n gwario £86 miliwn y flwyddyn ar gynyrchiadau yng Nghymru, ac mae'n chwarae rhan allweddol o ran darparu sefydlogrwydd i'r sector cymharol fregus hwn.
4. Roedd astudiaeth annibynnol a gynhaliwyd ym 1998 gan Uned Ymchwil Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd, yn dangos bod BBC Cymru yn gwneud cyfraniad

economaidd o bwys i economi Caerdydd ac i'r economi Cymreig ehangach. Er bod BBC Cymru yn cynnal dros 1,000 o swyddi'n uniongyrchol, gan wario tua £70 miliwn y flwyddyn honno, roedd effeithiau anuniongyrchol y gwariant hwn yn cynnal cyfanswm o dros 2,500 o swyddi yng Nghymru, gan ychwanegu cyfanswm o £140m i gynnyrch Cymreig.

5. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i wneuthurwyr rhaglenni weithio'n greadigol drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws rhaglenni Radio Cymru, rhaglenni ar-lein a rhaglenni teledu ar gyfer S4C. Mae cynlluniau'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd er mwyn hybu'r broses o ddatblygu talent ysgrifennu Cymraeg yn arbennig, gan adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes sy'n darparu hyfforddiant dwys ar gyfer darpar awduron uchelgeisiol.
6. Darperir hyfforddiant mewnol hefyd yn dilyn asesiadau blynyddol o sgiliau craidd y staff. Gellir eu rhyddhau i fynychu gwersi Cymraeg yn ystod oriau gwaith, a threfnir rhai cyrsiau yn fewnol.
7. Gellir dweud hefyd bod rhaglenni addysg yn annog datblygiad economaidd yng Nghymru. Mae BBC Cymru eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran datblygu ymwybyddiaeth a newid agweddau tuag at sgiliau gwaith drwy gyfrwng y ddarpariaeth deledu ac ar-lein *Working it Out* yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Un datblygiad o bwys a ddeilliodd o hyn oedd y wefan *Jyst y Job*, a oedd yn cynnig cyngor gyrfaoedd a sgiliau cynhwysfawr yn ddwyieithog. Bydd y BBC yn lansio cyfres o fodiwlau teledu ym mis Ionawr 2002 ar gyfer hyfforddiant mentergarwch ar y cyd â phrosiect e-Coleg Prifysgol Morgannwg. Mae rhaglenni eraill er mwyn hybu mentergarwch yn y broses o gael eu datblygu.

### Ymchwil a Datblygu

8. Mae'r BBC yn ymgymryd â rhaglen dreigl o ymchwil â'r gynulleidfa. Er y byddai'n anodd rhannu ymchwil i raglenni a gwasanaethau penodol oherwydd cyfrinachedd masnachol, byddem yn croesawu'r posibiliadau o gydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill sydd â diddordeb mewn ymchwilio i faterion ieithyddol. Mae'r BBC eisoes yn cydweithio â S4C ar brosiectau ymchwil penodol.

## Hybu Dwyieithrwydd a Chynnal Consensws

20. Mae'r BBC yn adolygu ei ddarpariaeth is-deitlau ar hyn o bryd, ac wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i is-deitlo'r cyfan o'i raglenni teledu erbyn 2008. Mae hyn yn hwyluso mynediad i'r byddar a'r rhannol fyddar i

raglenni, ond mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i'r di-Gymraeg fwynhau rhaglenni a wneir yn Gymraeg. Mae'r BBC, mewn partneriaeth â S4C, eisoes wedi arloesi'r dechnoleg sy'n ei gwneud yn bosibl i wylwyr gwasanaeth digidol S4C2, sy'n cynnwys darllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol, ddewis rhwng dau drac sain – gydag un ohonynt yn cynnwys cyfieithu ar y pryd pan siaredir Cymraeg ar lawr y

Siambr. Mae datblygiadau fel y rhain yn darparu gwerth ychwanegol i gynulleidfaoedd.

21. Yn ymarferol, mae gan y BBC gynllun Iaith Gymraeg, a gymeradwywyd yn 1998 ac a fonitrir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddir fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun ar y We yn yr Hydref sy'n dangos yr ymdrechion a wneir gan y BBC i ehangu ymwybyddiaeth o'r cynllun a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu ym mhob maes perthnasol. Er bod y BBC o ran natur ei fusnes yn gweithredu'n naturiol ddwyieithog, bu'r cyngor a gafwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch safonau arfer da wrth reoli prosesau yn werthfawr.

**<u>Buddsoddi Cyhoeddus a Strwythurau Cyflwyno</u>**

22. Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn deialog adeiladol gyda'r Cynulliad yngln â'i gynlluniau yng Nghymru. Cyhoeddir y cynlluniau darlledu blynyddol gan Lywodraethwyr y BBC ar gyfer pob un o wasanaethau'r BBC, gan gynnwys y rhai hynny a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd mecanweithiau atebolrwydd presennol yn sicrhau y cynghorir y Llywodraethwyr yngln ag anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd Cymru mewn perthynas â'r cynlluniau hyn gan Gyngor Darlledu Cymru. Croesewir sylwadau ar y cynlluniau hyn wrth gwrs gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Cymru ynghyd â sylwadau gan dalwyr y drwydded o bob cwr o Gymru, a bydd Cyngor Darlledu Cymru yn cyflwyno'r sylwadau hyn a sylwadau eraill i Fwrdd Llywodraethwyr y BBC.

23. Gyda dyfodiad mwy a mwy o sianeli a gwahanol ffurfiau o adloniant yn cystadlu am amser y gynulleidfa, ymateb y BBC yw buddsoddi mewn ansawdd. Mae'r cyfan a wyddom am y gynulleidfa yng Nghymru yn ein harwain i gredu eu bod am gael rhaglenni o ansawdd uchel, beth bynnag fo'r iaith, sydd â naws ddiwylliannol mewn cyd-destun Cymreig. Mae rhaglenni gwahanol yn apelio at grwpiau gwahanol: y nod ar Radio Cymru yw creu amserlen sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb, gan apelio at gynulleidfa eang drwy gyfrwng y Gymraeg.

**<u>Casgliadau</u>**

24. Mae portreadu a dehongli diwylliant cynyddol amrywiol Cymru yn ganolog i gylch gorchwyl darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Nod BBC Cymru yw darparu fforwm ar gyfer trafod a llwyfan i ddathlu arbenigrwydd Cymru, gan feithrin ac adfywio'r etifeddiaeth ieithyddol sy'n perthyn i bawb o bobl Cymru. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi creadigol, gan feithrin sgiliau ysgrifennu, perfformio a sgiliau technegol. Yn anad dim, drwy gynhyrchu rhaglenni sy'n apelio at eu cynulleidfaoedd targed, gall gyfrannu tuag at fywiogrwydd y diwylliant Cymraeg.
25. Y Cynulliad yw'r corff priodol i ddod â ffocws hanfodol i faterion datblygu'r iaith

Gymraeg. Yn arbennig, gall atgyfnerthu’r gwaith hwn drwy gymryd arweiniad cryf o ran datblygu seilwaith, a hybu partneriaethau sy’n hwyluso datblygiad deunydd addysgol.